16.6.2021

Annwyl Riant / Warchodwr

Fel y gwyddoch mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau yng Nghymru yn newid. O fis Medi 2021, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system newydd, symlach sy'n fwy ymatebol i ddiwallu anghenion plant ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous gan fydd y system newydd yn ffurfioli nifer o weithdrefnau yr ydym wedi bod yn eu dilyn ers cryn amser yn Ysgol Bro Pedr ac yn rhoi'r dysgwr wrth galon popeth a wnawn. Bydd y system yn cael ei chyflwyno'n raddol dros y tair blynedd nesaf (2021-2024) a byddwch yn gallu dod o hyd i ragor o wybodaeth am y broses ar wefan yr ysgol: ADY – Ysgol Bro Pedr

Dyma rai o'r negeseuon allweddol am y newidiadau hyn a'r hyn maen nhw'n ei olygu i chi a'n disgyblion.

Negeseuon Allweddol:

- Bydd y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn disodli'r termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anawsterau Dysgu ac Anableddau (ADA). Bernir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY os:
  - mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (ALP) arnynt i gefnogi eu haddysg
  - maent yn cael anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na mwyafrif eraill yr un oed NEU
  - mae ganddynt anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oed mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
- Bellach, gelwir Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (CAAA) mewn ysgolion yn Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY).
- Ni fydd y system bresennol o Weithredu Ysgol, Gweithredu Ysgol a Mwy, SAPRAs a Datganiadau yn bodoli mwyach a bydd pob plentyn a pherson ifanc lle'r credir bod ganddynt ADY (yn unol â'r meini prawf uchod) yn derbyn Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a fydd hefyd yn disodli Cynlluniau Addysgol Unigol (CAU) a Chynlluniau Ymddygiad Unigol (CYU).
- O 1 Medi 2021, bydd y system ADY yn cychwyn ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol ac iau sy'n mynychu ysgolion a gynhelir yn y Meithrin (blwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn), Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10) sydd yn cael darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu ysgol, gweithredu ysgol a mwy neu SAPRA. Bydd hefyd yn cychwyn ar gyfer disgyblion yn y blynyddoedd hyn sy'n newydd i'r gofrestr ADY.
- Bydd mwy o gyfle i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr gyfrannu at greu a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol trwy Gynllunio Person Ganolog a'r gobaith yw y dylai cydweithio'n agosach helpu i osgoi anghytundebau.
- Cymerir pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth Gymraeg os oes angen.

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth neu gyngor ychwanegol, cysylltwch â Bethan Payne, Pennaeth ADY.

Yn ddiffuant,

Jane Wyn, Pennaeth

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

16.6.2021

Dear Parent / Carer

As you may be aware the system for supporting children and young people with special educational needs and disability in Wales is changing. From September 2021, the Welsh Government is bringing in a new, simpler and more responsive system of meeting the needs of children with special educational needs or disabilities.

This is an exciting time as the new system will formalise a number of procedures that we have been following for some time at Ysgol Bro Pedr and puts the learner at the heart of everything that we do. The system will be brought in gradually over the next three years (2021 -2024) and you will be able to find more information regarding the process on the school website: ADY – Ysgol Bro Pedr

Here are some of the key messages about these changes and what they mean for you and our pupils.

Key Messages:

- The term Additional Learning Needs (ALN) will replace the terms Special Educational Needs (SEN) and Learning Difficulties and Disabilities (LDD). A child or young person is deemed to have ALN if:
    - they require additional learning provision (ALP) to support their education
    - they have a significantly greater difficulty in learning than the majority of others of the same age OR
    - they have a disability for the purposes of the Equality Act 2010 which prevents or hinders them from making use of facilities for education or training of a kind generally provided for others of the same age in mainstream maintained schools or mainstream institutions in the further education sector.
- Special Educational Needs Coordinators (SENCos) in schools will now be called Additional Learning Needs Coordinators (ALNCos)
- The current system of School Action, School Action Plus, SAPRAs and Statements will no longer exist and all children and young people thought to have ALN (according to the criteria above) will receive an Individual Development Plan (IDP) which will also replace Individual Education Plans (IEPs) and Individual Behaviour Plans (IBPs).
- From 1 September 2021, the ALN system will commence for children of compulsory school age and below who attend maintained schools in Nursery (first and second years), Year 1, Year 3, Year 5, Year 7 and Year 10) who have special educational provision via school action, school action plus or SAPRA. It will also commence for pupils in those year groups who are new to the ALN register at that point.
- There will be more opportunity for children, young people, parents and carers to contribute to the creation and maintenance of Individual Development Plans through Person Centred Planning and it is hoped that working together more closely should help to avoid disagreements.
- All reasonable steps will be taken to ensure Welsh language provision if required.

If you would like any additional information or advice, please contact Bethan Payne, Head of ALN.

Yours faithfully,

Jane Wyn, Headteacher

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk